



Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Drwy e-bost at:
dcmscom@parliament.uk

07/03/2023

Annwyl Bwyllgor,

Ymchwiliad ieithoedd lleiafrifol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn ymateb fel corff a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 â'r nod statudol o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae darpariaethau'r Mesur hwn, ynghyd â bodolaeth y Comisiynydd yn ei sgil, yn ganolog i bwnc yr ymchwiliad hwn. Felly, cyn ceisio ateb eich cwestiynau yn fwy penodol rydym yn cychwyn drwy amlinellu darpariaethau'r Mesur a gwaith Comisiynydd y Gymraeg. **Buasem yn croesawu'r cyfle i roi cyflwyniad manylach i'r Pwyllgor am ein gwaith gan fod yna ddeddfwriaeth a mentrau yng Nghymru a fyddai'n gallu buddio ieithoedd lleiafrifol eraill y DU.**

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan yn ddiamwys fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn creu nifer o ddarpariaethau pwysig eraill i'r Gymraeg, gan gynnwys:

- Statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- Safonau'r Gymraeg, sy'n gofyn i sefydliadau ymddwyn mewn modd penodol neu cyflawni gweithgareddau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg
- swydd annibynnol Comisiynydd y Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Prif nod statudol Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

Caiff y Comisiynydd wneud *unrhyw beth sy'n briodol* er mwyn hybu a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. Gweledigaeth hir dymor y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at gynyddu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r iaith.

Mae gan y Comisiynydd Gynllun Strategol tair blynedd sy'n gosod allan blaenoriaethau'r Comisiynydd er mwyn cyflawni'r weledigaeth: [Cynllun Strategol](#).

Mae'r Comisiynydd yn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau a'u gorfodi lle bo angen. Ymchwilir hefyd i geisiadau yn ymwneud ag ymyrraeth â'r rhyddid sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd yn ceisio dylanwadu ar bolisi lle mae gwneud hynny'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Mae hefyd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach drwy weithio yn y trydydd sector a'r sector preifat gan roi cydnabyddiaeth y [Cynnig Cymraeg](#) i'r rheini sy'n cynnig gwasanaethau Cymraeg. Y Comisiynydd hefyd sy'n gyfrifol am weinyddu cynllun arloesol [Iaith Gwaith](#), y swigen siarad oren sy'n arwydd bod gwasanaeth Cymraeg ar gynnig, ac yn cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft, ['Mae gen i Hawl'](#). Mae gan y Comisiynydd hefyd gyfrifoldeb unigryw i safoni enwau lleoedd Cymru: [Enwau Lleoedd](#).

Ar hyn o bryd Comisiynydd y Gymraeg yw Cadeirydd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith ([IALC](#)). Prif genhadaeth y Gymdeithas yw cefnogi a hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb, ac amrywiaeth ieithyddol ledled y byd.

Cyflawnir hyn oll er mwyn gwireddu'r egwyddor a sefydlir gan y Mesur na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

1. Beth yw'r prif ffactorau sy'n pennu a yw ieithoedd lleiafrifol cynhenid yn ffynnu ai peidio?

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn creu gofyniad statudol i Weinidogion Cymru lunio strategaeth iaith Gymraeg. Mae gan Gymru strategaeth iaith genedlaethol uchelgeisiol a hir dymor o weld miliwn o bobl yn mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050: [Cymraeg 2050](#). Mae'r Llywodraeth wedi adnabod 3 thema strategol er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon:



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae tudalennau 14–19 y strategaeth yn gosod allan sail gysyniadol y strategaeth driphlyg hon gan gyfeirio at waith academyddion blaenllaw yn y maes cynllunio ieithyddol.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb statudol i lunio adroddiad pob 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg. Cyhoeddwyd y diweddaraf yn 2021 ac mae'n cynnig peth sylwebaeth ar amcanion strategaeth *Cymraeg 2050* a'r hyn y mae'r Llywodraeth, ac eraill, wedi cyflawni hyd yma: [Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20](#). Mae'r Comisiynydd yn dadlau yn yr adroddiad hwn fod yna gonglfaen arall i gynllunio ieithyddol sydd ddim yn cael sylw haeddiannol yn strategaeth driphlyg y Llywodraeth: **Statws**. Mae sicrhau statws iaith yn hanfodol er mwyn cynnal pob gweithgarwch yn y pileri eraill. O'r herwydd mae rhan gyntaf yr adroddiad 5-mlynedd wedi'i neilltuo i drafod taith y Gymraeg o fod yn iaith a gafodd ei gwahardd a'i hisraddio i fod yn iaith swyddogol. **Argymhellwn fod aelodau'r Pwyllgor yn darllen y bennod hon yn ei chyfanrwydd gan ei bod yn cynnig allwedd i ddeall statws y Gymraeg heddiw yn ogystal â seicoleg ei siaradwyr hi.**

Nid yw hyn yn unigryw i'r Gymraeg, wrth reswm. Rydym yn dadlau felly fod yna bedwar piler i gynllunio ieithyddol a bod angen cynllunio strategol a buddsoddi ym mhob un ohonynt er mwyn i iaith ffynnu:

1. Sicrhau statws iaith
2. Cynyddu nifer siaradwyr
3. Cynyddu defnydd
4. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Nid oes lle i fynd i ragor o fanylder yma ynghylch pob un o'r pileri hyn na'r buddsoddi a'r rhaglenni gwaith sy'n angenrheidiol i'w cefnogi. **Byddai craffu ar yr adroddiad 5-mlynedd yn rhoi blas i aelodau Pwyllgor am yr hyn a gyflawnwyd hyd yma o dan faner *Cymraeg 2050* ynghyd â barn y Comisiynydd am flaenoriaethau'r cyfnod nesaf.**



2. Pa wersi gellid eu dysgu o wledydd lle mae cyfran helaeth o'r boblogaeth yn rhugl mewn iaith fwyafrifol ac iaith leiafrifol gynhenid?

Dau brif ddull sydd yna o greu siaradwyr: gall pobl gaffael yr iaith gartref ar yr aelwyd neu'n nes ymlaen drwy'r system addysg. Os na throsglwyddir yr iaith ar yr aelwyd, trochi plant yn yr iaith mor gynnar â phosibl yn y gyfundrefn addysg a gofal sydd fwyaf tebygol o arwain at greu siaradwyr rhugl. Mae mwyafrif siaradwyr Cymraeg ifanc heddiw yn debygol o fod wedi dysgu Cymraeg yn y gyfundrefn addysg: mae hyn yn tystio i bwysigrwydd strategol addysg Gymraeg yng Nghymru a'r arbenigedd sylweddol sydd wedi ei ddatblygu dros y degawdau diwethaf, gan gynnwys ym maes trochi hwyr. Mae arbenigedd sylweddol wedi'i ddatblygu ym maes dysgu Cymraeg i oedolion hefyd ac mae Cymru wedi buddsoddi mewn [Canolfan Genedlaethol](#) arloesol i gydlynu'r ymdrechion hyn a chreu adnoddau a phlatformau digidol i hwyluso cyflwyno'r Gymraeg i bawb, gan gynnwys newydd-ddyfodiaid i Gymru: [Lansio pecyn 'Croeso i Bawb' | Dysgu Cymraeg](#). **Byddai modd i ieithoedd eraill y DU fanteisio ar yr arbenigedd a'r adnoddau helaeth sydd yng Nghymru mewn perthynas ag addysg drochi a dysgu Cymraeg i oedolion ac efelychu modelau perthnasol.**

O edrych y tu allan i'r DU, y mae llawer y gellid ei ddysgu o Wlad y Basg, lle mae'r Fasgeg yn ffynnu ochr yn ochr â'r Sbaeneg a'r Ffrangeg. Stori o ddirywiad oedd hanes y Fasgeg dros y canrifoedd diwethaf a dyna oedd ei hanes hi am gyfran helaeth o'r ugeinfed ganrif hefyd. Ond mae data Arolwg Cymdeithasegol VI (2016) ar gyfer Cymuned Ymreolaethol Euskadi yn dangos fod 33.9% o'r boblogaeth dros 16 oed yn siarad Basgeg, ac 19.1% pellach yn siaradwyr goddefol. Mae hynny'n 212,000 (neu'n 10%) yn fwy o siaradwyr nag yn 1991. Mae'r cynnydd mwyaf wedi bod ymysg pobl o dan 35 oed, er bod cynnydd wedi bod ym mhob grŵp oedran o dan 65. Bellach mae 71.4% o bobl 16–24 oed yn siarad Basgeg; yn 1991 dim ond 25% oedd y ganran. Cyflawnwyd hyn drwy ymrwymiad ymwybodol i addysg drochi ac i normaleiddio defnyddio'r Fasgeg mewn bywyd cyhoeddus, gan gadarnhau ei statws.

Mae gan Lywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwlad y Basg i gefnogi'r cyfnewid gwybodaeth hyn ac mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wedi [creu Cadair Astudiaethau Basgeg i Gymru](#). Mae Ombwdsmon Gwlad y Basg ([Ararteko](#)) hefyd yn aelod gwerthfawr o Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith a buasem yn fwy na bodlon i hwyluso'r cyswllt rhyngoch. **Dylai'r Pwyllgor ymgynghori â'r rhwydweithiau hyn er mwyn tynnu ar yr arbenigedd perthnasol.**



3. Beth dylai'r meini prawf fod ar gyfer pennu a ddylai iaith leiafrifol dderbyn statws swyddogol ai peidio?

Penderfyniad gwleidyddol yn y pen draw yw pennu a ddylai iaith leiafrifol – neu iaith leiafrifedig – dderbyn statws swyddogol. Gall fod yn benderfyniad bwriadol i adfer neu wneud yn iawn am bolisiau, gweithredoedd neu ddeddfau'r gorffennol. Mae'r fideo byr yma, er enghraifft yn crynhoi yn weledol ac yn effeithiol y ffactorau hynny a gyfrannodd at ddirywiad yr iaith Gymraeg: [Ein Hiaith: Cysgodion Ddoe - Long Shadows.mp4](#).¹ Ymgais i wyrdroi'r sefyllfa hynny yw deddfau iaith yr ugeinfed ganrif ddaeth i benllanw ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 drwy ddatgan statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.

Yn ogystal â'r hawliau hyn sy'n deillio o'r Mesur mae gan siaradwyr Cymraeg hawliau yn deillio o statudau eraill. Er enghraifft, ar lefel Brydeinig, ymgorfforwyd rhai o erthyglau'r Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd (EUCFR) yng nghyfraith Prydain drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Wrth gwrs, gwnaeth Deddf yr UE (Ymadael) 2018 ddarpariaeth i ddileu'r EUCFR o gyfraith y DU a chymerodd Llywodraeth Prydain gamau tuag at wireddu ymrwymiad maniffesto y Blaid Geidwadol i ddisodli Deddf Hawliau Dynol 1998 â'r Bil Hawliau a gyhoeddwyd yn haf 2022. **Dylai aelodau'r Pwyllgor fonitro'n ofalus ddatblygiad y Bil hwn ac unrhyw wanhau posibl ar hawliau ieithyddol ym Mhrydain a allai ddod yn ei sgil. Gwarchodaeth gyfyngedig a ddarperir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, mewn gwirionedd, ac nid yw iaith yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ychwaith. Gall fod cyfle euraidd i ailymweld â'r cwestiwn sylfaenol o sut y mae'r gyfundrefn bresennol yn diogelu hawliau siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn y DU.**

Mae'r DU hefyd wedi llofnodi'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol (y Siarter). Drwy lofnodi'r Siarter hwn mae'r DU eisoes wedi datgan pwysigrwydd gwarchod ieithoedd rhanbarthol hanesyddol neu leiafrifol a chydabod bod 'yr hawl i ddefnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol mewn bywyd cyhoeddus a phreifat yn hawl ddiymwad'.² Mae'r Siarter wedi'i chynllunio i amddiffyn yr ieithoedd hyn a galluogi siaradwyr i'w defnyddio yn eu bywydau personol a phroffesiynol. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraethau i hyrwyddo'r ieithoedd hyn mewn sawl maes, gan gynnwys addysg, cyfiawnder, gweinyddiaeth gyhoeddus a'r cyfryngau. Felly, mae'r Siarter yn mynd ymhellach nag amddiffyn yn erbyn gwahaniaethu, gan fynnu bod Llywodraethau'n cymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol. Fodd bynnag, mater i Lywodraethau

¹ Er eu bod wedi dyddio ychydig, gall fod diddordeb gan aelodau'r Pwyllgor yn y fideos eraill yn y casgliad hwn sy'n dangos y llanw'n troi a chanlyniadau hynny, sef bod y Gymraeg yn iaith fyw: [Repository - Hwb \(gov.wales\)](#)

² [Siartr Ewrop ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol \(coe.int\)](#).



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

unigol yw pennu pa rannau o'r Siarter y maent yn eu mabwysiadu. Er enghraifft, mae'r Gymraeg yn cael ei diogelu o dan Ran II ac erthyglau penodol o Ran III y Siarter.³ Mae'r un erthyglau'n berthnasol i'r Wyddeleg, Gaeleg yr Alban, a'r Fanaweg (ers 2020), ond dim ond erthyglau Rhan II sy'n berthnasol i'r Gernyweg, Scoteg a Scoteg Ulster. **Dylid ystyried priodoldeb estyn darpariaethau Rhan III y Siarter i bob un o'r ieithoedd hyn.**

Mae pwyllgor o arbenigwyr yn monitro fod y Siarter yn cael ei weithredu yn ymarferol. Cânt wneud argymhellion ond ni chânt eu gorfodi. Mae adroddiadau'r pwyllgor hwn yn cynnwys mwy nag awgrym nad yw Llywodraeth y DU bob amser yn rhoi sylw dyledus i waith y pwyllgor hwn na'i argymhellion, e.e. 'The United Kingdom authorities submitted their fifth periodical report with a delay, on 23 January 2018, again failing to provide information on Northern Ireland [ein pwyslais]'.⁴ Rydym yn croesawu penodiad diweddar yr Athro Rob Dunbar i'r pwyllgor hwn: mae ganddo arbenigedd penodol mewn perthynas â sefyllfa'r Alban ynghyd â dealltwriaeth fanwl o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Byddai'n fanteisiol gwahodd yr Athro Dunbar i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn yn rhinwedd ei rôl newydd. **Rhaid sicrhau bod Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig perthnasol yn talu sylw i adroddiadau ac argymhellion y pwyllgor ac yn ymateb yn amserol iddynt.**

Mae gan yr Undeb Ewropeaidd hanes hir o fod yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth o werth amrywiaeth ieithyddol. Hybir ieithoedd llai hefyd trwy ymgyrchoedd megis [Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd](#) a chefnogir hwy gan ymchwil a phrosiectau amlieithrwydd. Er enghraifft, yn 2017 comisiynwyd yr astudiaeth 'Minority Languages and Education: Best Practices and Pitfalls' a chynhwyswyd y Gymraeg yn un o'r astudiaethau achos. **Rhaid sicrhau nad yw Brexit yn atal siaradwyr y Gymraeg, ac ieithoedd lleiafrifol eraill y DU, rhag manteisio ar ymyraethau Ewropeaidd sy'n hybu amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol. A sicrhau hefyd nad yw'r cyfleon i rannu arfer da o Gymru â chymunedau ieithyddol lleiafrifol Ewrop yn cael eu colli.**

Roedd gan y Gymraeg statws 'cyd-swyddogol' yn yr Undeb Ewropeaidd er 2008, yr un statws ag a roddir i'r Gatalaneg a'r Fasgeg. Roedd y statws hwn yn rhoi rhai hawliau cyfyngedig i ddinasyddion, fel yr hawl i ohebu yn y Gymraeg â Chomisiwn Ewrop, a derbyn ymateb yn Gymraeg. Golygodd hefyd fod rhywfaint o Gymraeg wedi ei defnyddio yn Senedd Ewrop. Nid oes gan y Gymraeg eto statws o'r math hwn yn San Steffan, er i ni weld ambell enghraifft o ddefnydd cyfyngedig o'r Gymraeg gan aelodau seneddol yn y blynyddoedd diwethaf. **Gan i'r Gymraeg golli ei statws o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn sgil Brexit, mae'n bwysicach nag erioed fod San Steffan yn ystyried y Gymraeg**

³ Rhan II (erthygl 7) a Rhan III (erthyglau 8–14).

⁴ [Fifth report of the Committee of Experts in respect of the United Kingdom \(coe.int\)](#).



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

mewn materion sydd heb eu datganoli ac mewn deddfwriaeth a gyflwynir yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Amlygwyd yr angen i ystyried y Gymraeg ar lefel y Deyrnas Unedig – a sicrhau ei statws – yn glir iawn yng nghyd-destun pandemig COVID-19 pan benderfynwyd caffael a threfnu nifer o ymatebion allweddol yn ganolog gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol San Steffan. Pendraw'r canoli ymdrechion hyn gan adran annatganoledig oedd nad oedd pob un o'r gwasanaethau a ddarparwyd wedi'u cynllunio â'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog. **Rhaid dysgu gwersi o hyn a sicrhau fod gan y Gymraeg statws digonol ar lefel y Deyrnas Unedig i sicrhau darparu gwasanaethau angenrheidiol i ddinasyddion Cymru, yn arbennig mewn cyfnod o argyfwng.**

4. Beth ddylai rôl Llywodraeth y DU fod mewn perthynas â chefnogi a datblygu ieithoedd lleiafrifol cynhenid?

Mae dau brif beth y gall Llywodraeth y DU ei wneud i gefnogi a datblygu ieithoedd lleiafrifol cynhenid, sef:

- 1) Deddfu o'u plaid**
- 2) Sicrhau y rhoddir sylw priodol iddynt mewn materion polisi a gedwir yn ôl**

Ymhelaethir ar y pwyntiau hyn isod:

1) Deddfu i gadarnhau statws iaith a hawliau ei siaradwyr

Deddf Llywodraeth y DU – Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 – a sefydlodd yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru (cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol). Fodd bynnag, mae dros 30 mlynedd ers i San Steffan ddeddfu o blaid y Gymraeg ac mae'r tirlun ieithyddol a gwleidyddol wedi newid yn sylfaenol ers hynny, yn benodol yn y Gymru ddatganoledig sydd ohoni.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau sy'n deillio o hynny wedi bod yn gam enfawr ymlaen o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r drefn cynlluniau iaith gysylltiedig. Mae'r Safonau wedi darparu lefel o sicrwydd i sefydliadau a defnyddwyr fel ei gilydd, gan greu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg a chadarnhau ymhellach statws yr iaith.⁵

⁵ Mae arolygon barn [Adroddiadau sicrwydd](#) y Comisiynydd yn tystio'n gyson i'r ffaith bod profiadau siaradwyr Gymraeg yn gwella yn sgil Safonau'r Gymraeg.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Mae gan bobl bellach hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod eang o sefyllfaoedd yn eu bywydau dyddiol yng Nghymru ac mae gan y Comisiynydd bwerau gorfodi eang i sicrhau bod y dyletswyddau hynny yn cael eu gweithredu.

Ond, mae'r drefn ddatganoli bresennol yn cyfyngu ar bwerau'r Comisiynydd gan nad yw nifer o sefydliadau cenedlaethol mawr y DU yn ddarostyngedig i'r Safonau ond yn hytrach, yn parhau i weithredu cynlluniau iaith, lle mae pwerau'r Comisiynydd yn gyfyngedig iawn.

Canlyniad peidio â gosod Safonau ar sefydliadau anweinidogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff y Goron yw bod dwy gyfundrefn statudol yn weithredol yng Nghymru heddiw. Mae hyn yn peri dryswch i'r cyhoedd gan fod hawl ganddynt i ddod at Gomisiynydd y Gymraeg yn syth i gwyno am sefydliadau sydd o dan Safonau ond nid yw'r un hawl ganddynt i gwyno'n uniongyrchol am fethiannau yng nghyd-destun gwasanaethau allweddol y Wladwriaeth Les, er enghraifft.

Un achos diweddar sy'n amlgu'r diffygion sy'n codi â chynlluniau iaith o'u cymharu â Safonau'r Gymraeg yw'r anghyfiawnder y mae siaradwyr Cymraeg yn ei wynebu os ydynt eisiau sefyll eu profion gyrru drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ar sail ymchwiliad i weithrediad Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA – sydd yn asiant y Goron), lle daeth i'r casgliad bod yr asiantaeth yn gweithredu'n groes i'w ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Gellid darllen yr adroddiad llawn yma: [Siaradwyr Cymraeg yn wynebu anghyfiawnder os am sefyll prawf gyrru drwy gyfrwng y Gymraeg.](#)

Yr unig ffordd o ddatrys yr anghyfiawnderau hyn, ym marn y Comisiynydd, yw dod â'r DVSA a sefydliadau tebyg o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Byddai hynny hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i *orfodi* gwella yn hytrach nag argymhell yn unig. Mae hi eisoes yn bosibl gwneud hynny o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol, ond mae'n ddibynol ar ewyllys gwleidyddol neu ar gael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

2) Sicrhau y rhoddir sylw priodol iddynt mewn materion polisi a gedwir yn ôl

Mae'r materion a gadwyd yn ôl gan atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys nifer sy'n effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r meysydd polisi hyn yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i, gyfiawnder, yr economi a masnach, mewnfudo, a darlledu. Nid oes lle i drafod y meysydd hyn yma ond gellir darllen ymdriniaeth bellach ohonynt yn ymateb diweddar y Comisiynydd i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.⁶

Mae'n hawdd gweld sut mae penderfyniadau ynghylch rhai ohonynt, darlledu, er enghraifft, yn hanfodol i sicrhau amlygrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i bobl ei chlywed a'i defnyddio bob dydd. Mae yna feysydd eraill lle mae'r cyswllt â Chymru a'r Gymraeg yn llai amlwg ar yr olwg gyntaf ond nid yw'n amherthnasol. Er enghraifft, ddechrau 2020 amlinellodd y

⁶ [Ymateb Comisiynydd y Gymraeg i ymgynghoriad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.](#)



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Swyddfa Gartref ei bwriadau ar gyfer system fewnfudo i'r DU yn seiliedig ar bwyntiau. Nid oedd y polisi yn adlewyrchu'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru a'i bod yn angenrheidiol ar gyfer nifer o swyddi. **Mae'n hanfodol fod y Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhob polisi a deddfwriaeth ar lefel y DU a bod hyblygrwydd i amrywio rheoliadau ac offerynnau statudol i greu darpariaeth ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yng Nghymru.**

Mewn egwyddor, y disgwyliad yw y byddai ystyriaeth yn cael ei roi i effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg o ganlyniad i ofynion cynlluniau iaith nifer o'r adrannau sy'n eu gwneud. Fodd bynnag, yn ymarferol nid yw hyn yn digwydd bob tro. Mae'r ffaith nad yw'r adrannau sy'n gwneud y penderfyniadau polisi yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Comisiynydd i'w rheoleiddio ac i sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg.

Mae darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi dyddio ac nid ydynt yn adlewyrchu sefyllfa'r Gymraeg na disgwyliadau defnyddwyr yng Nghymru heddiw. **Argymhellaf fod angen i'r Pwyllgor ystyried y sefyllfa hon ar fyrder er mwyn ceisio sicrhau nad yw darpariaethau Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Gymraeg yn aros yn statig.**

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg